Cryfhau Partneriaeth Gymdeithasol

Strengthening Social Partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ymrwymiad Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i weithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol: Meithrin Perthynas waith Gadarnhaol, anrhydeddu parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr

**Gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltiad a lles y staff, lansiodd CNC broses ymgynghori gynhwysfawr gyda'r undebau yn rhan ohoni o'r cychwyn cyntaf, yn chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a'u rhoi ar waith.**

Mae CNC yn enghraifft o Bartneriaeth Gymdeithasol effeithiol oherwydd iddo weithio'n gydweithredol ag undebau llafur yn ystod cyfnod o drawsnewid sylweddol yn y gweithle. Fel rhan o'r 'rhaglen Adfywio' a gynlluniwyd i ail-greu llefydd gwaith ar ôl COVID-19 a chefnogi ymatebion i argyfyngau hinsawdd a natur, cynigiodd CNC adleoli staff o Dŷ Cambria i Barc Cathays, yn unol â'i nodau carbon isel at y dyfodol.

Roedd strwythurau ffurfiol yn sicrhau bod undebau yn cyfrannu ar bob lefel: o Fwrdd Prosiect Llety Caerdydd i'r Bwrdd Busnes a'r Grŵp Gweithredu Newid. Roedd y fforymau hyn yn rhoi cyfle i undebau llafur godi pryderon, dylanwadu ar benderfyniadau, a chyd-ddatblygu atebion sy'n cydbwyso anghenion strategol, megis arbedion costau ac pha mor agos ydynt at Lywodraeth Cymru, gyda blaenoriaethau gweithwyr.

Tynnodd adborth staff sylw at fanteision y lleoliad newydd, gan gynnwys gwell cyfleusterau a mannau cymdeithasol. Yn bwysicach fyth, roedd yr ymarfer gwersi a ddysgwyd yn tanlinellu cryfder gwaith partneriaeth CNC, gyda sylwadau cadarnhaol ar dryloywder, ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr yn dod i law.

Roedd cyfarfodydd arweinyddiaeth rheolaidd gydag undebau a diweddariadau cynhwysfawr i'r holl staff yn atgyfnerthu'r cyfathrebu agored ac yn caniatáu rhannu perchnogaeth dros y newid. Mae'r achos hwn yn enghraifft o sut mae ymrwymiad parhaus CNC i weithio mewn partneriaeth wedi eu galluogi i adleoli swyddfa yn ddi-drafferth, ac ar ben hynny mae wedi atgyfnerthu diwylliant sefydliadol cadarnhaol – gan ddangos bod ymgysylltu ystyrlon ag undebau yn arwain at ganlyniadau mwy effeithiol a chynhwysol.



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG53874
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**Astudiaeth achos**

Chwefror 2026